# Uchafbwyntiau Gwnaethpwyd yng Nghymru: 23-24



Delwedd: Kensuke's Kingdom (© Modern Films)

Rydyn ni wedi bod yn brysur yn cynllunio eleni, gyda detholiad mawr o ffilmiau disgwyliedig yn cyrraedd ein sgriniau yn ystod Haf / Hydref 24/25. Tra'n bod ni wedi bod yn brysur yn cyfweld â thalent, yn cydweithio â dosbarthwyr ac yn rhannu rhag-ddangosiadau, cawsom gyfle i wylio'r dalent newydd, Carly-Sophia Davies, ar y sgrin fawr ac fe aeth y clasur cwlt Twin Town ar daith gyda'r cyfarwyddwr, Kevin Allen. Fe ddechreuon ni sianel newydd ar Instagram i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynulleidfaoedd am ffilmiau newydd, gan lansio gyda chyfweliad arbennig ar gyfer The Almond and the Seahorse.

Gadewch i ni edrych yn ôl ar 23/24...

Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru
BFI FAN BFI FILM AUDIENCE NETWORK
THE NATIONAL LOTTERY
CHAPTER

# Fe wnaethon ni gefnogi

**62 o ffilmiau newydd**
**(cyfanswm o 87 o ffilmiau)**

**56 o wneuthurwyr ffilmiau newydd**
**(cyfanswm o 99 o wneuthurwyr ffilmiau)**

**26 o sinemâu newydd**
**(cyfanswm o 51 o sinemâu)**

**24 o gwmnïau cynhyrchu newydd**
**(cyfanswm o 43)**

**6 dosbarthwr newydd**
**(cyfanswm o 18)**

**7 o weithwyr llawrydd**
**Comisiynwyd 13 o asedau**

**Dros 1000 o ffilmiau ar ein catalog ar-lein**

## Sbotolau: The Almond and the Seahorse

Fe gydweithion â'r dosbarthwr Picnik Entertainment a'r cwmni cynhyrchu Mad as Birds i baratoi ar gyfer rhyddhau *The Almond and the Seahorse* ar y 10fed o Fai 2024. Mae'r ffilm mewn sinemâu ar hyn o bryd. Buom yn cyfweld â'r Cyfarwyddwr o Gymru, Celyn Jones, ar gyfer podlediad GYNg newydd, yn ogystal â chomisiynu'r awdur, bardd ac actifydd anabledd arobryn, Bethany Handley, i siarad gydag awdur a dramatwrg y ffilm, Kaite O'Reilly, am wleidyddiaeth anabledd ar y sgrin. Roedd hwn, ynghyd â llawer o glipiau cyfryngau cymdeithasol, ar gael i sinemâu a oedd yn archebu'r ffilm, i gefnogi'r gwaith hyrwyddo.



Delwedd: The Almond and the Seahorse (© Picnik Entertainment Ltd)

# Ffilmiau Allweddoley a Ryddhawyd

- Chuck Chuck Baby
- India's First Best Trans Model Agency
- Kensuke's Kingdom
- London Recruits
- The Almond and the Seahorse

*(Being Hijra yn flaenorol)

- The Road of Excess
- Timestalker
- Unicorns
- The Eternal Daughter
- Twin Town



Delwedd: The Eternal Daughter (© A24)

## Sbotolau: The Eternal Daughter

Fe greon ni 'Becyn Cymorth' ar gyfer y ffilm, yn cynnwys cyflwyniad fideo ecsgliwsif gan yr actor o Gymru Carly-Sophia Davies, cynnwys golygyddol mewn partneriaeth â Buzz Magazine, cardiau cyfryngau cymdeithasol, argymhellion rhaglennu ac asedau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol. Roedd y cyfan ar gael i arddangoswyr eu rhannu gyda chynulleidfaoedd, er mwyn hyrwyddo cysylltiadau Cymreig y ffilm.

*Mae brwdfrydedd a chymorth Gwnaethpwyd yng Nghymru wirioneddol wedi helpu cynyddu proffil prosiect ffilm ddogfen y byddai rhai'n ystyried yn eithaf anarferol. Mae'r gefnogaeth wedi bod mor bwysig o ystyried gwreiddiau a dosbarthiad DIY y ffilm; heb y math yma o gydweithrediad, annhebygol iawn yw hi y byddai ffilm gyda chyllideb fechan fel yma wedi'i gweld mewn sinemâu yn y DU'.*

**Gwneuthurwr ffilmiau**


# Yn y swyddfa docynnau

Fe wnaethom ni gomisiynu Delphine Lievens i ysgrifennu adroddiad yn dadansoddi data o 16 o ffilmiau1 gyda chysylltiad Cymreig, a ryddhawyd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

- **Rhyddhawyd 12 o ffilmiau mewn sinemâu (allan o 13)**
- **Ni chafodd 4 (allan o 13) o ffilmiau eu rhyddhau mewn sinemâu nac AU y tu allan i'r DU**
- **Fe wnaeth 1 ffilm ennill dros £1m yn swyddfa docynnau'r DU, fe enillodd un arall dros £100,000. Fe enillodd y 10 ffilm arall a ryddhawyd mewn sinemâu dan £100,000 yr un**
- **2 gyfarwyddwr lleiafrifol (y ddwy yn fenywod o liw)**
- **5 cynhyrchydd lleiafrifol (ar draws 3 ffilm)**
- **2 awdur lleiafrifol**
- **31% yn gyfarwyddwyr benywaidd, 36% yn gynhyrchwyr benywaidd**
- **1 ffilm amlhiliol (Translations)**
- **2 ffilm Cymraeg ei hiaith *(Gwledd* ac *Y Sŵn)***

**Barbarian, Brian and Charles, Bronze Men of Cameroon, Burial, Catherine Called Birdy, Donna, Off the Rails, Portrait of Kaye, Scam, She is Love, The Feast / Gwledd, The Phantom of the Open, The Silent Twins, The Swimmers, Tosh, Y Swn.*

*Dw i' wrth fydd modd yn rhannu bod theatr wedi cysylltu ynglŷn â dangos ein ffilm fer! Diolch o galon - ni fyddai hyn wedi digwydd heboch chi!*




**Gwneuthurwr ffilmiau**

## Instagram a Phodlediad GYNg

Wyddoch chi ein bod ni wedi sefydlu sianel Instagram newydd i godi ymwybyddiaeth o ffilmiau Cymreig ymhlith cynulleidfaoedd a'r diwydiant? Rydyn ni'n rhannu bob math ~o ddiweddariadau, o newyddion ynglŷn â ffilmio yng Nghymru, i bryd mae dosbarthwyr yn caffael ffilmiau.

Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r sianel hon fel lle i hyrwyddo dangosiadau mewn canolfannau yng Nghymru, gan ddefnyddio clipiau o gyfweliadau gyda thalent, y gellir gwrando arnynt yn eu cyfanrwydd (a'u rhannu gyda'ch cynulleidfaoedd) ar y podlediad GYNg newydd.



Delweddau: The Almond and the Seahorse © Picnik Entertainment Ltd), Chuck Chuck Baby © Studio Soho, Unicorns © Signature Entertainment, Kensuke's Kingdom © Modern Films

# Preview Days

1 digwyddiad mewn lleoliad – yng Nghanolfan Gelfyddydau Wyeside

Fe fynychodd 19 o raglenwyr o 10 canolfan

Dangoswyd 4 o ffilmiau

Dangoswyd 6 o ffilmiau byrion / clipiau

**"Cyfle gwych i weld ffilmiau sydd yn mynd i gael eu rhyddhau, yn y sinema, heb deithio i Lundain!" - Rhaglennwr**

## Sbotolau: Archif

Rydyn ni wedi bod yn brysur yn cynllunio prosiect archif gydag Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru (AGSSC), yn archwilio digideiddio Oed yr Addewid ('Do Not Go Gentle') – 2000, a gyfarwyddwyd gan Emlyn Williams. Y bwriad fyddai i gefnogi taith o'r ffilm yn ystod 2024. Cadwch lygad allan am ddiweddariadau pellach. Fe wnaethon ni hefyd gefnogi Sinemaes 2024 yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a oedd yn cynnwys rhaglen ddyddiol o ffilmiau archif byrion a grëwyd hefyd gan AGSSC.

## Talent Gymreig:


Fe wnaethon ni gefnogi 99 o wneuthurwyr ffilmiau drwy hyrwyddo eu ffilmiau, creu asedau er mwyn ychwanegu gwerth wrth ryddhau'r ffilmiau a chynghori ar strategaethau dosbarthu.

## Sbotolau: Digwyddiadau

Fe fynychodd y Swyddog GYNg Ŵyl Ffilmiau Gwobrau Iris, Gŵyl Ffilmiau Aesthetica, SXSW a Cannes, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o'r prosiect ymhlith gwneuthurwyr ffilmiau, cynulleidfaoedd a'r diwydiant ffilmiau ehangach. Fe wnaed y gwaith hwn gydag arian cyfatebol gan ffynonellau amrywiol, er mwyn archwilio pa un ai a fyddai presenoldeb yn cael effaith gadarnhaol ar gysylltiadau parhaus ac ymgyrchoedd ffilmiau.

# Partneriaeth Buzz

Fe ymunon â Buzz Magazine i greu darnau golygyddol yn cynnig safbwyntiau gwahanol ar ffilmiau newydd, gan awduron a chanddynt brofiad bywyd. Mae hyn hefyd yn ein helpu ni i ychwanegu at ymgyrch ganolog y ffilm, gan godi ymwybyddiaeth am y cysylltiadau Cymreig sydd efallai ddim yn cael yr un sylw yn y wasg, ac yn cysylltu darllenwyr y cylchgrawn at ganolfannau lle y mae modd iddynt archebu tocynnau. Yn achos The Eternal Daughter, cafwyd cyfweliad gyda'r actor Carly-Sophia Davies, sy'n enedigol o Bort Talbot, am ei rôl gyntaf yn y ffilm, ochr yn ochr â Tilda Swinton.



## Sbotolau: The Almond and the Seahorse

Wrth edrych ymlaen at ryddhad y ffilm, fe ofynnom ni i'r awdur, bardd ac actifydd anabledd arobryn, Bethany Handley o Dde Cymru siarad gydag awdur a dramatwrg y ffilm, Kaite O'Reilly, ynglŷn â beth mae'n ei olygu i adrodd straeon Cymreig amrywiol ar y sgrin, gyda neges sy'n berthnasol yn fyd-eang, wedi'i gwreiddio mewn gwleidyddiaeth anabledd.

Mae'r darnau hyn wedyn yn cael eu cynnig i ffynonellau ehangach, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r ffilm yn y mannau y caiff ei dangos.



Delwedd: The Almond and the Seahorse (© Picnik Entertainment Ltd)

# Beth sydd nesaf i raglen Gwnaethpwyd yng Nghymru?

- Mae 2024/25 yn mynd i fod yn gyfnod prysur i ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig, gydag o leiaf 14 o ffilmiau (hyd y gwyddom!) i'w rhyddhau cyn diwedd y flwyddyn. Rydyn ni'n brysur yn gweithio ar asedau ar gyfer ffilmiau blaenllaw, mewn partneriaeth â dosbarthwyr – o asedau cyfryngau cymdeithasol i becynnau cymorth i arddangoswyr
- Byddwn yn parhau i gydweithio â chylchgrawn Buzz i gomisiynu erthyglau, rhoi sbotolau ar ffilmiau Cymreig a chefnogi awduron ffilmiau newydd
- Byddwn yn comisiynu ymchwil i ffilmiau a ryddhawyd yn ystod 23/24, er mwyn archwilio perfformiad yn y swyddfa docynnau
- Rydyn ni'n pwyso a mesur cynlluniau ar gyfer Diwrnod Rhagddangos arall mewn canolfan.

## Ffilmiau i'w rhyddhau 2024/25:

- **Seize Them** (5 Ebrill 2024)
- **The Almond and the Seahorse** (10 Mai 2024)
- **Freud's Last Session** (14 Mehefin 2024)
- **Unicorns** (5t Gorffennaf 2024)
- **Chuck Chuck Baby** (19 Gorffennaf 2024)
- **Kensuke's Kingdom** (2 Awst 2024)
- **Starve Acre** (6 Medi 2024)
- **Timestalker** (25 Hydref 2024)
- **India's First Best Trans Model Agency** (Tachwedd 2024 TBC)
- **The Road of Excess** (2024 TBC)
- **Protein** (2024 TBC)
- **London Recruits** (2024 TBC)
- **On Becoming a Guinea Fowl** (2024/25 TBC)
- **Brides** (2024/25 TBC)

## Cysylltwch â Ni:


**Hana Lewis**
Rheolwr Strategol
02920 353 740
hana@filmhubwales.org

**Lisa Nesbitt**
Swyddog Datblygu
02920 311 067
lisa@filmhubwales.org

**Holly Dennison**
Swyddog Marchnata ac Allgymorth
02920 311 057
holly@filmhubwales.org

**Toki Allison**
Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru
toki@filmhubwales.org


Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru · BFI FAN BFI Film Audience Network · The National Lottery · Chapter